# Arwain 2015

Prifysgol Abertawe
Swansea University




# Y darlithydd tu cefn i Parch

Mae un o ddarlithwyr Prifysgol Abertawe wedi bod yn cadw miloedd o bobl ar flaen eu soffas trwy gydol yr haf eleni.

Ac maen nhw'n dal i fod ar flaen eu seddi ar ôl diwedd dramatig i un o gyfresi dramâu gorau S4C yn ystod y blynyddoedd diwetha'.

Dr Fflur Dafydd, Uwch Ddarlithydd Ysgrifennu Creadigol yn y Brifysgol, yw awdur y gyfres *Parch* am y Parch Myfanwy Elfed.

Mae bywyd helbulus y ficer a'i pherthynas gyda'r trefnydd angladdau lleol wedi ennill calonnau gwylwyr ac mae'r cyferbyniad rhwng y tywyll a'r dwys a'r doniol wedi ennill canmoliaeth adolygwyr.

Yn ogystal â bod yn awdur amryddawn sydd wedi ennill y Fedal Ryddiaith a Gwobr Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol, mae Fflur Dafydd hefyd yn gyfansoddwraig a chantores ond dyma ei chynnig cynta' ar ddrama deledu.

"Mae'n anodd rhoi genre ar fy ngwaith, ond dw i'n hoff o gyfuno'r real a'r swreal," meddai Fflur Dafydd, sy'n wreiddiol o Landysul ond sydd bellach yn byw yng Nghaerfyrddin.

Cafodd help a chyngor parod gan ei gŵr, Iwan, wrth ysgrifennu'r gyfres – ymgymerwr angladdau yw yntau – a gan y Parch Manon Ceridwen James, ficer plwyf Llanddulas a Llysfaen ger Abergele.

"Mae eu hymateb nhw wedi bod yn hanfodol," meddai Fflur. "Mae'r ficer a'r trefnwr angladdau yn ffigurau mor allweddol mewn cymdeithas, yn enwedig wrth gynorthwyo pobl mewn galar, ac mae hi'n bwysig iawn fod hynny'n cael ei bortreadu'n gywir ar y sgrîn."

Fe fydd rhagor o waith Fflur Dafydd ar y sgrîn yn fuan wrth i'w nofel, *Y Llyfrgell* gael ei haddasu'n ffilm yn rhan o gynllun 'Sinematig' Asiantaeth Ffilm Cymru.

Hon oedd y nofel a enillodd Wobr Daniel Owen iddi yn 2009 ac mae'n dweud mai gwneud ffilm oedd y syniad gwreiddiol.

Mae disgwyl i'r ffilm gyrraedd y sgrîn fawr a'r sgrîn fach y flwyddyn nesa' – a rhagor o bobl ar flaen eu seddi eto.

QS STARS
RATED FOR EXCELLENCE

## Cadw 5 seren – a dringo 5 lle

Eleni eto, mae Prifysgol Abertawe yn cael ei chydnabod yn un o brifysgolion gorau'r byd.

Mae wedi cadw ei statws 'pum seren' yn system raddio ansawdd fyd-eang QS Stars, sy'n ei gosod ochr yn ochr â phrifysgolion fel Harvard, Stanford, Yale, Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi dringo pump lle yn Nhablau Cynghrair y Guardian ar gyfer 2016 – gan barhau gyda'i record ryfeddol o gynnydd.

O fewn pum mlynedd, mae wedi dringo 42 lle – o rif 94 yn yn y gynghrair yn 2012 i rif 52 yn 2016.

Lawn cyn bwysiced, mae'r Brifysgol ymysg yr 20 sefydliad gorau o ran siawns ei graddedigion o gael swyddi.

Mae hefyd yn cael cydnabyddiaeth arbennig am ansawdd ei haddysgu mewn pynciau penodol.

- ★ Mae ymysg deg prifysgol ucha'r Deyrnas Unedig am Beirianneg Deunyddiau a Mwynau, Gwaith Cymdeithasol ac Astudiaethau Americanaidd.
- ★ Mae ymysg yr 20 uchaf am Gyfrifiadureg, Meddygaeth, Peirianneg Gemegol, Proffesiynau Iechyd, Polisi a Gweinyddiaeth Cymdeithasol ac Astudiaethau'r Cyfryngau a Ffilm.

"Mae'r gwelliant yn nhabl Cynghrair y Guardian a graddau 5 seren QS Stars yn fesur amlwg o'n perfformiad, ein henw da a'r profiad rhagorol yr ydym yn ei gynnig i'n myfyrwyr, meddai'r Athro Hilary Lappin-Scott, Uwch Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe.

"Dyma'r diweddaraf mewn cyfres hir o lwyddiannau sy'n adlewyrchu ein momentwm parhaus tuag at gael ein cydnabod yn un o sefydliadau mwya' blaenllaw'r Deyrnas Unedig a'r byd."

# Nodiadau coll Dylan
## – ar gael yn y Brifysgol



Roedd Prifysgol Abertawe'n gartref i un o ddigwyddiadau mawr y byd llenyddol ddechrau'r haf.

Fe gafodd llyfr nodiadau 'coll' gan y bardd Dylan Thomas ei arddangos yn gyhoeddus am y tro cynta' erioed, gan fwrw goleuni newydd ar ei gerddi a'i ffordd o ysgrifennu.

Mae'r llyfr, a ddaeth i'r golwg am y tro cyntaf y llynedd, yn cynnwys fersiynau gwreiddiol rhai o gerddi mwya'r bardd o Abertawe.

Yn ôl un arbenigwr, hwn yw'r darganfyddiad mwyaf cyffrous o weithiau'r bardd ers ei farwolaeth yn 1953.

Roedd y llyfr wedi bod ar goll mewn drâr am ddegawdau cyn cael ei brynu gan y Brifysgol am £85,000 mewn arwerthiant yn Sotheby's y llynedd.

Cafodd ei arddangos yn y Brifysgol ar 14 Mai wrth i Ddiwrnod Rhyngwladol Dylan Thomas gael ei ddathlu am y tro cynta', yn dilyn dathliadau'r llynedd i nodi canmlwyddiant geni'r bardd.

Ymhlith y gwesteion yr oedd Hannah Ellis, wyres Dylan Thomas, a oedd wrth ei bodd o weld y llyfr.

"Roedd y cyfnod a dreuliodd fy nhad-cu yn Abertawe yn ddylanwad mawr ar ei waith, gan iddo gael ei ysbrydoli gan y môr a'r golygfeydd," meddai.

"Ro'n i mor falch pan brynodd Prifysgol Abertawe'r llyfr, gan fy mod i'n credu ei bod hi'n bwysig bod pobl yn cael y cyfle i'w weld, a hefyd yn cael y cyfle i ddod i ddeall gwaith fy nhad-cu yn well."

Mae'r llyfr nodiadau bellach yn cael ei gadw yn Archifau Richard Burton yn y Brifysgol.

"Gan mai ni yw'r brifysgol yn nhref enedigol y bardd a noddwr Gwobr Ryngwladol Dylan Thomas, mae'n briodol ein bod ni wedi gallu sicrhau bod y llyfr nodiadau hwn yn aros yng Nghymru," meddai'r Athro Iwan Davies, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe. "Bydd yn ychwanegiad hyfryd i'n casgliad archif helaeth a phwysig."



Hannah Ellis

# Lewys yn edrych ymlaen

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd, mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe lywydd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sef Lewys Arôn, 21 oed o Gorslas yn Sir Gaerfyrddin.

Ef hefyd yw'r Llywydd cynta' erioed i gael ei ethol trwy bleidlais ar-lein, a hynny yn annisgwyl mewn is-etholiad.

Cafodd y myfyriwr BA Cymraeg ei ethol ar 24 Mehefin ac roedd yn dechrau ar y swydd o fewn wythnos. Trwy lwc, roedd eisoes yn gyfarwydd â gwaith yr undeb, trwy fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol ac yn Swyddog Iaith Gymraeg.

Mae'n elwa hefyd ar brofiad blwyddyn yn glerc cofnodion meddygol yn Ysbyty'r Tywysog Philip Llanelli.

"Mae'r profiad a ges i'n help mawr i ddeall materion cyfreithiol hanfodol fel iechyd a diogelwch, er enghraifft," meddai.

Ac yntau wedi ymgyrchu ar-lein, does dim syndod mai un o'i flaenoriaethau fydd adfywio gwefan yr undeb.

"Fe fydda' i hefyd yn pwyso am oleuadau ym Mharc Singleton er mwyn gwella diogelwch myfyrwyr fin nos. Fy ngobaith yw perswadio'r Brifysgol, y cyngor a busnesau lleol i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sicrhau hyn.

Blaenoriaeth arall sydd ganddo yw sicrhau sylw llawn i fuddiannau myfyrwyr wrth i gampws newydd y Bae agor.

"Does gen i ddim amheuaeth fod blwyddyn gyffrous o'n blaenau ym Mhrifysgol Abertawe, a dw i'n edrych ymlaen yn fawr at her fy swydd newydd."



**Lewys Arôn yng nghwmni yr Is-Ganghellor, Yr Athro Richard B. Davies a Richard Powell, St. Modwen**

# Campws newydd – cyfnod newydd

Bydd ein myfyrwyr y tymor nesa'n manteisio ar rai o'r adnoddau gorau a newyddaf mewn unrhyw brifysgol yn y Deyrnas Unedig.

Mae Campws y Bae wedi golygu buddsoddiad o £450 miliwn, a hwnnw'n rhan o gynllun datblygu ehangach sydd ymhlith pump prosiect gwybodaeth mwya' Ewrop.

Ym mis Medi, bydd cannoedd o fyfyrwyr y Coleg Peirianneg a'r Ysgol Reolaeth yn cael ystafelloedd mewn neuaddau preswyl newydd sbon ar y campws sy'n agor yn uniongyrchol ar y Farian a'r traeth yn ardal SA1 o'r ddinas.

Bydd Neuadd Fawr ar y campws fydd yn ofod ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 700, yn ogystal â chyfleusterau bwyta a chymdeithasu a llyfrgell gwirioneddol fodern.

"Bydd y Brifysgol yn dechrau ar gyfnod newydd eleni gyda chyfleusterau o safon rhyngwladol ar y ddau gampws sy'n safleoedd heb eu hail, a bydd hyn yn arwain at dwf sylweddol mewn ymchwil a myfyrwyr," meddai'r Athro Richard B Davies, yr Is-Ganghellor. Mae Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr, Lewys Arôn, hefyd wrth ei fodd ar ôl bod ar ymweliad yno. "Mae'r adnoddau y tu hwnt i fy nisgwyliadau", meddai, gyda'r Undeb yn cael swyddfeydd newydd yn y Tŵr Gwybodaeth.

Bydd y gwaith datblygu yn parhau tan 2020, ond bydd y rhan fwya' o'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn dechrau Hydref 2015.

Ers i'r gwaith adeiladu ddechrau ar y safle 65 erw ym mis Mawrth 2015, mae mwy na 6,000 o bobl wedi gweithio ar y safle, a mwy na 70% ohonyn nhw'n hanu o Gymru.

O'r 210 o gwmnïau sydd wedi bod yn gweithio ar y safle, mae 163 ohonynt yn dod o Gymru, gan adlewyrchu ymrwymiad y brifysgol i ddefnyddio'i chryfderau er mwyn cefnogi'r gwaith o weddnewid y rhanbarth a Chymru yn economaidd ac yn gymdeithasol.


# Twf yn y cyrsiau cyfrwng Cymraeg

**Mae Prifysgol Abertawe'n cynnig mwy a mwy o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg i'w myfyrwyr. Mae'r ddarpariaeth yn ehangu'n flynyddol, a'r cyrsiau'n cynnwys pynciau gwyddonol fel meddygaeth a pheirianneg yn ogystal â'r gyfraith a ieithoedd modern, cysylltiadau cyhoeddus a gwaith cymdeithasol i enwi ond rhai.**

**Mae cyfanswm o dros 130 o fodiwlau bellach yn cael eu cyflwyno drwy'r Gymraeg gan 35 aelod o staff sy'n cael eu cydnabod ymhlith arbenigwyr penna'u meysydd.**

**Bellach, mae 16 o ddarlithwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y Brifysgol yn Abertawe a'r nifer yn cynyddu o hyd. O ganlyniad i fuddsoddiad y Brifysgol a'r Coleg, mae'r data diweddaraf yn dangos fod cynnydd o 22% yn y nifer o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe sydd yn astudio o leiaf 5 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg ers 2012-13.**

## Torri tir newydd – Peirianneg trwy'r Gymraeg



Am y tro cynta' erioed mewn unrhyw brifysgol, fe fydd modd astudio peirianneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

Mae Dr Eifion Jewell, sydd ag 20 mlynedd o brofiad o ymchwilio ym maes peirianneg deunyddiau a pheirianneg mecanyddol, ar fin dechrau ar ei waith yn Uwch Ddarlithydd Peirianneg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Abertawe.

"Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at y sialens ac at y profiad o wneud rhywbeth gwahanol nad oes neb wedi ei wneud o'r blaen," meddai.

"Yr hyn y byddwn i'n ei bwysleisio i fyfyrwyr yw nad oes rheswm o gwbl pam na allwch chi ddefnyddio'r Gymraeg mewn peirianneg fwy nag mewn unrhyw faes arall.

"Mae'n wir, wrth gwrs, mai Saesneg yw iaith ymchwil peirianneg ledled Ewrop, ac nid disodli'r Saesneg yw'r syniad ond yn hytrach ychwanegu ati. Mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn dangos balchder a hyblygrwydd ac yn ennyn parch ymysg pobl o wledydd eraill."

Mae'n teimlo'n gryf y dylai rhagor o bobl ifanc ystyried gyrfa ym myd peirianneg.

"Mae galw mawr am beirianwyr, a mwy o swyddi nag sydd o beirianwyr ar eu cyfer. Mae pobl sy'n graddio mewn peirianneg yn gallu cerdded yn syth i mewn i swyddi sy'n talu'n dda a bydd arddangos gallu mewn mwy nag un iaith yn gosod ein graddedigion ar dir uwch mewn byd gwaith cystadleuol."

## Ateb y galw am fwy trwy'r Gymraeg mewn Meddygaeth

Ar ôl blynyddoedd o waith ymchwil arbenigol yn y byd meddygol, mae un o ddarlithwyr newydd y Coleg Cymraeg yn edrych ymlaen at her ei swydd newydd yn darlithio trwy'r Gymraeg yn un o feysydd mwya' blaengar y byd gwyddonol.

Fe fydd Dr Alwena Morgan yn dysgu bio-cemeg a geneteg trwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr Ysgol Feddygaeth y Brifysgol yn Abertawe, gan gydweithio'n agos gyda darlithydd arall o'r Ysgol sydd dan nawdd y Coleg Cymraeg, sef Dr Heledd Iago.

"Dw i'n edrych ymlaen at yr her o weithio drwy'r Gymraeg, gan mai yn Saesneg yr ydw i wedi cyflawni fy holl waith ymchwil, felly mae wedi golygu cryn dipyn o waith ehangu fy ngeirfa yn y maes."

A hithau'n wreiddiol o Lanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin, cafodd ei haddysg yn Ysgol Pantycelyn cyn graddio mewn bio-cemeg yng Nghaerdydd yn 2006.

Mae hi wedi bod yn ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Abertawe dros y pedair blynedd ddiwethaf, a'i maes arbenigedd yn ymwneud â colesterol ac imiwnedd.

"Fy ngobaith yn fy swydd newydd fydd recriwtio rhagor o fyfyrwyr Cymraeg i'r Ysgol Feddygaeth, a chynyddu'r nifer a fydd yn astudio bio-cemeg a geneteg drwy'r Gymraeg,"meddai.

Mae tîm sylweddol o staff sy'n Gymry Cymraeg yn Ysgol Feddygaeth Abertawe gydag arbenigedd ar draws sawl maes allweddol."



# Y Gymraeg, y gymuned a'r Brifysgol

Fe fydd canolfan arloesol newydd dan adain Academi Hywel Teifi yn dod â bywyd newydd i'r Gymraeg mewn ardal lle mae'n colli tir.

Yr Academi, ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi ennill y cyfle i ddatblygu Canolfan Gymraeg yn hen lys ynadon Pontardawe. Bydd y ganolfan yn cynnal rhaglen o weithgareddau cymdeithasol ac addysgol, gan roi sylw penodol i anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc yr ardal.

Bydd yn darparu cyfle i bobl ddysgu'r iaith a datblygu hyder yn eu gallu i gyfathrebu trwy'r Gymraeg, yn ogystal â bod yn gartref i siop lyfrau a swyddfeydd fydd yn hybu mentergarwch yn yr iaith.

Mae'r adeilad eisoes yn gartref i lyfrgell Pontardawe a gwasanaethau cymunedol y Cyngor; bydd y Ganolfan Gymraeg, felly, yn ddatblygiad addas ac atyniadol ynghanol y dref.

Cafodd y cynllun hwb enfawr yn gynharach eleni pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant cyfalaf o £300,000 ar gyfer y ganolfan - un o ddim ond chwech cynllun mewn gwahanol rannau o Gymru i dderbyn arian o'r fath.



"Dangosodd ymchwil gan Academi Hywel Teifi mai sefydlu Canolfannau Cymraeg fyddai'r ateb mwyaf creadigol ac effeithiol i'r gwaith o adfywio'r Gymraeg yn ein cymunedau a'i hyrwyddo fel iaith ag iddi fywyd a dyfodol y tu allan i fyd addysg a'r dosbarth.

Bydd y grant hwn yn ein galluogi ni i sefydlu canolfan fywiog, atyniadol ac amlwg ar gyfer gweithgareddau Cymraeg yng Nghwm Tawe," meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi.

"Datgelodd Cyfrifiad 2011 fod yr iaith yng Nghwm Tawe yn enwedig yn colli tir yn y gymuned a bydd sefydlu Canolfan Gymraeg ym Mhontardawe felly'n gam amserol a strategol i atal dirywiad pellach."

Academi Hywel Teifi | Prifysgol Abertawe Swansea University

*Cafodd Academi Hywel Teifi ei sefydlu gan Brifysgol Abertawe yn 2010 er cof am yr Athro Hywel Teifi Edwards, cyn-athro Cymraeg y Brifysgol. Mae pum elfen i waith yr Academi:*

- Canolfan ragoriaeth i astudio'r iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth
- Canolfan sy'n darparu cyrsiau blaengar cyfrwng Cymraeg ac iddynt gyswllt agos â diwydiant ym maes Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Hybu addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl bynciau yn y Brifysgol
- Arwain a darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn rhanbarth de-orllewin Cymru.
- Gweithio i sicrhau lle amlycach i'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y brifysgol a rhanbarth de-orllewin Cymru.

# Doethuriaeth i Rhys, ‘brawd drwg’ Abertawe



Fe ddaeth un o sêr mawr y byd ffilmiau yn ôl i Abertawe i dderbyn gradd er anrhydedd Doethur mewn Llên eleni.

Y ffilm *Twin Town*, a ffilmiwyd yn y ddinas, oedd y gwaith a ddaeth ag enwogrwydd cynnar i Rhys Ifans.

Ar ôl actio dwyn ceir a gwerthu cyffuriau yn un o ddau frawd drwg *Twin Town*, fe ddaeth yr actor, a anwyd yn Hwlffordd ond a fagwyd yn Rhuthun, yn enwocach fyth trwy gymeriad lliwgar Spike, yn y ffilm *Notting Hill* yn 1999.

Mae Rhys Ifans wedi dangos ei fod yn actor method penigamp a thrylwyr ar lwyfan a sgrîn, sydd bob amser yn ymwrthod â stereoteipio trwy dderbyn rolau heriol ac amrywiol. “Mae ymhlith yr actorion gorau a ddaeth o Gymru,” meddai Rhodri Morgan, Canghellor Prifysgol Abertawe, “ac mae’n dda gan y Brifysgol gydnabod ei ddawn.”

“Mae derbyn y radd yma yn anrhydedd fawr,” meddai Rhys Ifans. “Mae bob amser yn hyfryd i dderbyn cydnabyddiaeth am eich gwaith, ac mae’n golygu llawer i mi fod y gydnabyddiaeth yn dod oddi wrth brifysgol mor uchel ei pharch ac mewn dinas sydd mor agos at fy nghalon.”

# Partneriaeth newydd yn creu arlwy unigryw yn y Lolfa Lên


Am y tro cyntaf mae Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Academi Hywel Teifi er mwyn cyflwyno rhaglen orlawn o ddigwyddiadau llenyddol amrywiol ar lwyfan amgen a phoblogaidd Y Lolfa Lên ar faes y Brifwyl ym Maldwyn.

Trefnwyd gwledd o ddigwyddiadau i ddiddanu ymwelwyr i’r tîpî llenyddol, gan gynnwys sesiwn ***Cynnal y Fflam*** i nodi pum mlynedd ers marwolaeth yr Athro Hywel Teifi Edwards a sefydlu Academi Hywel Teifi ym Mhrifysgol Abertawe, gyda’r Athro M. Wynn Thomas yn trafod cyfraniad Hywel Teifi fel llenor ac ysgolhaig, yr Arglwydd Dafydd Wigley yn cofio am Hywel Teifi y gwleidydd a’r cenedlaetholwr a Dr Gwenno Ffrancon yn trafod gwaith a gweledigaeth Academi Hywel Teifi.

Ymysg yr uchafbwyntiau eraill – cyfle i glywed am brofiadau yr Athro Christine James o Adran y Gymraeg wrth iddi fwrw golwg nôl dros ei chyfnod fel Archdderwydd Cymru yng nghwmni’r Prifardd T. James Jones.



“Mae cydweithio ar brosiect y Lolfa Lên wedi rhoi cyfle inni rannu ein harbenigedd, ein brwdfrydedd a’n hadnoddau wrth fynnu lle blaenllaw i lenyddiaeth a’r celfyddydau Cymraeg yng Nghymru a’r tu hwnt,” meddai Gwenno Ffrancon.



# Ehangu gorwelion trwy wyddoniaeth

Cafodd Prif Weinidog Cymru gyfle ar faes Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili i weld rhai o’r datblygiadau diweddaraf cyffrous mewn addysg a gwaith ymchwil gwyddonol yng Nghymru.

Roedd Carwyn Jones ymhlith y miloedd o bobl a gafodd eu croesawu i’r GwyddonLe sy’n cael ei noddi gan Brifysgol Abertawe, ac sy’n lwyfan i waith arloesol y Brifysgol, a’i phartneriaid, ym maes gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg.



Yn ogystal ag arbrofi gyda nitrogen hylifol, gweld tipyn ar waith S4C ym maes codio, animeiddio a gemau, a dal seren fôr fyw yn ei law, fe fu’r Prif Weinidog yn dysgu am echdynnu DNA gyda Dr Heledd Iago o Ysgol Feddygaeth y Brifysgol.

“Roedd yn braf gweld cymaint o weithgareddau arloesol ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg,” meddai Carwyn Jones. “Mae’n amlwg fod yr Urdd, Prifysgol Abertawe ac S4C yn dal i adeiladu’n flynyddol ar eu portffolio o weithgareddau blaengar ac amrywiol i bobl ifanc.”

# Torri tir newydd – cefnogi darpar rieni trwy’r Gymraeg!

Mae dosbarthiadau cyn-geni cyfrwng Cymraeg wedi dechrau mewn dwy dref yn y Gorllewin a’r Canolbarth dan arweiniad darlithydd Bydwreigiaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae ei myfyrwyr bydwreigiaeth o’r Brifysgol yn helpu Rachel Williams yn ei dosbarthiadau – y rhai cynta’ erioed i’w cynnal yn swyddogol trwy’r Gymraeg yn yr ardal.

Mae’r dosbarthiadau yng Nghaerfyrddin ac Aberystwyth ar gyfer mamau sydd wedi croesi 28 wythnos o’u beichiogrwydd, ac maen nhw’n cael eu cynnal unwaith yr wythnos am bedair wythnos.

Dywed Rachel Williams, a gafodd 15 mlynedd o brofiad o fod yn fydwraig cyn ei phenodi’n ddarlithydd, fod ymateb da iawn i’r dosbarthiadau.



“Mae menywod a’u partneriaid yn cael cyfle i dderbyn gwybodaeth yn eu mamiaith – gan osgoi terminoleg anodd ei ddeall – a hynny mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar,” meddai.

Mae’n brofiad gwerthfawr a phwysig i’w myfyrwyr hefyd, ychwanegodd.

“Mae’r myfyrwyr yn elwa o’r profiad gan fod y sgîl o ddarparu dosbarthiadau cyn geni i fenywod beichiog yn hanfodol ac yn rhan o’u cwrs.

“Maen nhw hefyd yn gwerthfawrogi’r cyfle i gyflwyno’r dosbarthiadau yn y Gymraeg, sy’n iaith gyntaf i rai ohonyn nhw.”

Os hoffech chi fanteisio ar gefnogaeth o’r math hwn, cysylltwch â Rachel Williams trwy r.a.williams@abertawe.ac.uk neu 01792 606223.